

Gwydro effeithlon o ran ynni

Cadwch y gwres i mewn a'r sŵn allan

Ar gyfartaledd, mae cartrefi yn colli 10% o'u gwres trwy ffenestri a drysau. Bydd gosod ffenestri effeithlon o ran ynni yn lleihau'r colli gwres hwn, yn cadw'r cartref yn fwy cynnes ac yn lleihau biliau gwresogi tra hefyd yn lleihau sŵn o'r tu allan.

Sut mae gwydr dwbl yn gweithio

Mae gan ffenestri gwydr dwbl ddwy haen o wydr gyda bwlch rhyngddynt sydd fel arfer 16mm o led. Y bwlch hwn sy'n creu rhwystr inswleiddio i arafu'r gyfradd y mae gwres yn dianc o'r cartref. Mae ffenestri gwydr triphlyg hefyd ar gael nawr sydd â thair haen o wydr, ac felly dau fwch inswleiddio, er mwyn darparu hyd yn oed gwell inswleiddio.

Dewis ffenestr gwydr dwbl

Gall dewis ffenestri newydd ar gyfer eiddo fod yn broses gymhleth; mae llawer o ffactorau i'w hystyried gan gynnwys y math o wydr, deunydd ffrâm y ffenestr ac a yw'r ffenestri yn addas ar gyfer arddull yr eiddo. Dyma rai awgrymiadau y gallwch eu dilyn wrth chwilio am ffenestri newydd.

Y gwydr mwyaf ynni effeithlon ar gyfer gwydr dwbl yw gwydr allyrredd isel (Low-E). Yn aml mae gan y math hwn o wydr haen anweledig o fetel ocsid ar un o'r haenau mewnol o wydr nesaf at y bwlch. Mantais y math hwn o wydr yw ei allu i adael golau i mewn, ond torri i lawr ar golli gwres. Yn ogystal, mae'r bwlch rhwng y ddwy haen o wydr mewn ffenestri gwydr dwbl effeithlon iawn wedi ei lenwi â nwy anadweithiol, heb fod yn wenwynig. Mae gan y nwy hwy fwy o ddwysedd nag aer, felly mae'n fwy



Mae'r bwlch rhwng y ddwy haen o wydr yn creu haen inswleiddio




Cynnes, tawel, cyfforddus, diogel

Photo: istock.com/standby

effeithiol o ran lleihau'r gwres a gollir o'r eiddo. Argon yw'r nwy mwyaf cyffredin a ddefnyddir mewn ffenestri gwydr dwbl, gan ei fod yn hynod o gost-effeithiol, di-liw, nid yw yn fflamadwy ac nid yw'n adweithio i nwyon eraill.

Pan fydd eich ffenestri yn cael eu disodli, mae'n hanfodol gwneud yn siŵr bod yr adeilad yn parhau i fod awyru'n dda, gan y bydd y ffenestri newydd yn fwy aerdyn na'r rhai gwreiddiol. Mae awyru yn caniatáu i awyr iach ddog i mewn i'ch cartref, a lleithder i ddianc. Os nad oes gan eich eiddo lawer o awyriad (goddefol) naturiol, edrychwch am ffenestri newydd gyda fentiau diferynnu sy'n caniatáu ychydig bach o awyru a reolir.

Er mwyn eich helpu i ddewis y ffenestri gorau, mae Cyngor Graddio Ffenestru Prydain (BFRC) wedi datblygu cynllun sgorio effeithlonrwydd ynni gan ddefnyddio graddfa o A+ i G (dde) yn debyg i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer pethau fel oergelloedd a pheiriannau golchi. Wrth gyfrifo'r gyfradd ynni, mae'r ffenestr gyfan - y ffrâm a'r gwydr - yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Mae dwy system sgorio arall ar gyfer ffenestri a ddarperir gan CERTASS a BSI. Efallai y bydd y ffenestri mwyaf effeithlon hefyd yn cario'r logo a Argymhellir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.



Pa mor hir mae ffenestri dwbl yn para?

Oes nodweddiadol ffenestri gwydr dwbl yw tua 20 mlynedd, ond gall hyn amrywio o 10-35 mlynedd yn seiliedig ar ansawdd y deunyddiau, gosodiad a lle mae'r ffenestri wedi eu lleoli. Dros amser, bydd y nwy o fewn yr haenau yn raddol yn gollwng allan. Pan fydd tua 25% o'r nwy wedi anweddu, bydd perfformiad thermal y ffenestri wedi ei leihau a dylid ystyried ailosod ffenestri neu osod mesur gwydro eilaidd (gweler ein taflen ffeithiau 'Gwydro eilaidd: y dewis arall cost isel i wydr dwbl').

Eiddo rhestredig neu mewn ardal gadwraeth

Os yw eich eiddo yn adeilad rhestredig neu mewn ardal gadwraeth mae'n debygol y bydd cyfyngiadau ar yr hyn y gallwch ei wneud i'ch ffenestri, felly mae bob amser yn syniad da i gysylltu â'ch awdurdod lleol cyn gwneud unrhyw waith. Os nad ydych yn gallu disodli'r ffenestri, mae nifer o ddewisiadau eraill heb fod yn ymwithiol a all wella effeithlonrwydd ynni a chynhesrwydd eich cartref. Mae'r rhain yn cynnwys gosod llenni trwm, wedi'u leinio sydd ar gau wrth iddi nosi, caedau, bleindiau wedi selio neu wydr eilaidd - neu gyfuniad o'r rhain.

Gallwch ddod o hyd i osodwr ffenestri dwbl da drwy un o'r sefydliadau hyn:

Mae'r Cynllun Hunanasesu Ffenestri (FENSA) yn gynllun i berson cymwys a sefydlwyd gan y Ffederasiwn Gwydr a Gwydro a chyrrff eraill yn y diwydiant. Mae FENSA yn galluogi cwmnïau sy'n gosod ffenestri a drysau newydd i hunan-ardystio cydymffurfiaid o dan y Rheoliadau Adeiladu heb yr angen am asesiad gan Rheoli Adeiladu: [www.fensa.co.uk | 0207 645 3700]

Mae'r Cynllun Ombwdsmon Ffenestri Dwbl ac Ystafell Wydr (DGCOS) yn cynnig gwasanaeth rhad ac am ddim i ymchwilio i gwynion am y gwaith a wneir gan ei aelodau. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau annibynnol am ddim, cyflafareddu a chronfa iawndal. Mae'n rhaid i osodwyr achrededig gynnig amddiffyniad blaendal a gwarant gynhwysfawr i gwsmeriaid: [www.dgcos.org.uk | 0845 053 8975]

Awgrymiadau ar gyfer lleihau biliau ynni

Hapus i dalu mwy am eich trydan a'ch nwy nag sydd angen? Nac ydych wrth gwrs. Felly dyma sut y gallwch leihau eich biliau:

Rhowch ddiwrnod yn yr haul i'ch dillad a rhowch seibiant i'ch peiriant sychu dillad. Mae dillad wedi'u sychu yn yr awyr iach yn teimlo'n wych, ac mae dyddiau sychu yn y gaeaf, hefyd.



Dysgwch nhw'n ifanc. Anogwch eich plant i ddiffodd teganau trydan a goleuadau nad ydynt yn eu defnyddio. Buan y byddant yn dod i arfer arbed ynni.



Byddwch yn ffrind i'ch rhewgell. Dylech ei ddadrewi'n rheolaidd i'w helpu i weithio'n fwy effeithlon.

Arhoswch tan fydd gennyh chi lond llwyth cyn rhoi'r peiriant golchi llestri neu'r peiriant golchi i fynd. Mae llwyth llawn yn defnyddio llai o ynni (a dŵr) na dau lwyth hanner llawn.



Peidiwch â gorlenwi'r tegell (ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gorchuddio'r elfen metel yn y gwaelod).



Osgowch y drafft! Gosodwch rimynnau drafft i'ch drws ffrynt, blwch llythyrau a thwll allwedd, a chaewch eich llenni wrth iddi nosi er mwyn cadw'r gwres i mewn.

Trowch eich gwres i lawr l gradd. Prin y byddwch yn sylwi ar y newid yn y tymheredd, ond bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'ch bil gwresogi.

Cysgwch yn dda. Gwnewch yn siŵr bod yr holl oleuadau'n cael eu diffodd pan fyddwch yn mynd i'r gwely. Os ydych am oleuo ystafell plentyn neu landin, defnyddiwch olau nos watedd isel.



3 St Peter's Court
Bedminster Parade
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400
www.cse.org.uk
info@cse.org.uk

Charity: 298740
Founded: 1979

Cynhyrchwyd y daflen hon yn wreiddiol gan y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, elusen genedlaethol (rhif 298740) sy'n helpu pobl i newid eu hagwedd a'u harferion o ran ynni

Mae ein Tim Ynni Cartref yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).



For energy advice:

Phone 0800 082 2234

Email home.energy@cse.org.uk

Web www.cse.org.uk/loveyourhome



www.facebook.com/EnergySavingAdvice



www.twitter.com/cse_homeenergy